Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr

Mae WCVA wedi lansio Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru sydd yn cael eu cefnogi eleni gan CCLA.

Ers i'r fenter ddechrau ym 2004, mae nifer yr enwebeion wedi cynyddu i dros 200 mewn pum categori, a ddewiswyd i adlewyrchu'r ystod o gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ledled Cymru.

Yn ogystal â chydnabod unigolion, pobl ifanc (dan 25 oed) a grwpiau, mae'r hefyd yn gwobrwyo gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr 'gwyrdd'. Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd yr enillwyr yn cael eu gwobrau mewn seremoni yng Nghaerdydd fis Mehefin, a bydd pawb a enwebir yn cael tystysgrifau clod mewn seremoni leol neu drwy'r post.

Ymhlith Gwirfoddolwyr y Flwyddyn Cymru 2010 oedd dau amgylcheddwr sy'n cymryd amser o'u gwaith yn ddi-dâl i wirfoddoli ac ymddiriedolwr sydd wedi bod yn allweddol yn sicrhau bod Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn y Gogledd yn rhedeg yn effeithiol.

Mae'r cefnogwr CCLA yn bodoli i helpu elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler www.ccla.co.uk am ragor o wybodaeth.

Gellir cael manylion y cynllun, gan gynnwys ffurflenni enwebu, drwy gysylltu â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk. Hefyd, gellir eu llwytho i lawr o'r wefan o fis Chwefror, sef www.wcva.org.uk/voty. Y dyddiad cau ar gyfer cael enwebiadau yw 15 Ebrill 2011.

Annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan mewn ymchwil am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gofal Cymru yn awyddus i glywed gan siaradwyr Cymraeg am eu profiad wrth dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg.

Ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilwyr o'r Ganolfan Cynllunio Iaith i wneud y gwaith.

Mae ymchwilwyr o'r Ganolfan yn awyddus i siarad â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr a ffeindio sut brofiad gawson nhw. A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n hapus â'r gwasanaeth, neu, a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella pethe?

Bydd cyfle i bobl gymryd rhan yn yr ymchwil trwy gyfweliad wyneb yn wyneb neu gyfweliad dros y ffôn, ac mae croeso iddyn nhw hefyd gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch naill ai ag Elaine Davies ar 01239 711668 (elaine.davies@iaith.eu) neu ag Elin Mair ar 01239 711668 (elin.mair@iaith.eu).

Elusennau'n cael dewis ochr yn y refferendwm Pleidlais Amgen

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi datgan y bydd elusennau'n cael cefnogi pleidlais le neu Na yn y refferendwm a gynhelir cyn bo hir ynghylch newid y system Bleidlais Amgen, os byddant yn credu y bydd y canlyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni eu hamcanion.

Dywed arweiniad newydd gan y comisiwn fod yr egwyddorion sy'n rheoli gweithgarwch gwleidyddol elusennau hefyd yn berthnasol i refferenda. Mae'n datgan ei bod yn briodol i elusennau `amlinellu manteision ac anfanteision pleidlais ie neu na i'w buddiolwyr'.

Dywed: `Er enghraifft, pe byddai canlyniad refferendwm yn cael effaith arbennig ar bobl hy√n, byddai'n briodol i elusen sy'n gweithio gyda phobl hy√n esbonio effeithiau'r canlyniadau gwahanol i'w buddiolwyr.'

Ond mae'n gwahaniaethu rhwng amlinellu'r manteision a'r anfanteision a mynd ati i ymgyrchu dros bleidlais ie neu na.

`Mewn achosion eithriadol, gall elusennau ystyried bod canlyniad refferendwm yn debygol o gael effaith uniongyrchol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gyflawni eu hamcanion elusennol,' meddai.

`Os oes effaith anuniongyrchol neu ansicr iawn ar waith yr elusen, bydd yn anodd i'r ymddiriedolwyr gyfiawnhau ymgyrchu dros ganlyniad arbennig.

`Y cwestiwn allweddol i'r ymddiriedolwyr yw yn union sut y byddai gweithgarwch o'r fath yn ffordd effeithiol o hyrwyddo amcanion yr elusen.'

Os ydynt yn bwriadu cyhoeddi deunyddiau sy'n datgan cefnogaeth ar gyfer ochr benodol mewn refferendwm, mae'r ddogfen yn awgrymu efallai y bydd gofyn i elusennau gofrestru a√'r Comisiwn Etholiadol fel mudiadau ymgyrchu.

Dywedir bod yr ymgyrch No to AV wedi ysgrifennu at 23 o elusennau yn gofyn iddynt bellhau eu hunain yn gyhoeddus oddi wrth ymgyrch Yes to Fairer Votes.

Yn ôl datganiad a gyhoeddwyd gan yr ymgyrch No to AV: `Croesawn yr arweiniad hwn gan y Comisiwn Elusennau, a byddwn yn gofyn am eglurhad ar unwaith gan yr elusennau dan sylw ynghylch sut mae eu cefnogaeth honedig yn berthnasol i gyflawni eu hamcanion elusennol.'

Etholiad y Cynulliad 2011– agenda i'r trydydd sector

Yn y cyfnod cyn etholiad 2011 y Cynulliad Cenedlaethol, mae WCVA yn amlinellu sut y mae'r trydydd sector eisoes yn helpu pobl a chymunedau yng Nghymru i ateb heriau heddiw a'r dyfodol.

Mae'r ddogfen hefyd yn cynnig cyfres o gamau ymarferol y gallai Llywodraeth newydd y Cynulliad eu cymryd i gynyddu cyfraniad y trydydd sector i hybu cyfranogiad ymarferol pobl ym mywyd y gymuned ac mewn gweithredu cymunedol.

Gellir gweld *Etholiad y Cynulliad 2011– agenda i'r trydydd sector* yn http://tiny.cc/8uqls a'r crynodeb yn http://tiny.cc/l3pri.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.